sicrhau bod cyfathrebiadau'n **gweithio i bawb**

# Datganiad: Polisi cyffredinol ar sicrhau cydymffurfiad â dyletswyddau diogelwch

Penderfyniad ar y datganiad polisi cyffredinol o dan adran 105Y o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (canllawiau gweithdrefnol Ofcom) a

Phenderfyniad ar ganllawiau ar ofynion cydnerthedd a osodir gan neu o dan adrannau 105A i D o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (canllawiau Ofcom ar gydnerthedd)

**DATGANIAD:**

Dyddiad cyhoeddi: 12 Rhagfyr 2022

# Cynnwys

## Adran

1. Trosolwg 1

## Cyhoeddwyd fel atodiadau ar wahân:

A1. Datganiad polisi cyffredinol o dan adran 105Y o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003

A2. Canllawiau ar ofynion cydnerthedd a osodir gan neu o dan adrannau 105A i D o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003

# 1. Trosolwg

Yn dilyn y gofyniad o dan adran 105Y o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ('Deddf 2003'), gwnaethom gyhoeddi ymgynghoriad cyhoeddus ar 8 Mawrth 2022 yn nodi ein canllawiau arfaethedig ar ein polisi cyffredinol mewn perthynas ag arfer ein swyddogaethau o dan adrannau 105I a 105M i 105V o Ddeddf 2003. Roeddem hefyd wedi cynnig diweddariad i'n canllawiau presennol ar ofynion diogelwch yn adrannau 105A i D o Ddeddf 2003 a oedd yn angenrheidiol oherwydd y newidiadau sy'n deillio o Ddeddf Telathrebu (Diogelwch) 2021, felly mae'n canolbwyntio ar sut dylai darparwyr fynd ati o ran eu rhwymedigaethau cydnerthedd o dan y fframwaith newydd. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 31 Mai 2022.

Cawsom bron i 28 o ymatebion. Mae'r holl atebion nad oedd yn gyfrinachol wedi cael eu cyhoeddi ar ein gwefan.[1] Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, rydym nawr yn cyhoeddi ein datganiad terfynol. Mae crynodeb o'r sylwadau a gafwyd a'n hymatebion iddynt wedi'u nodi yn Adran 2.

[1] Ymgynghoriad: Polisi cyffredinol ar sicrhau cydymffurfiad â dyletswyddau diogelwch - Ofcom]

## Yr hyn rydym wedi'i benderfynu

**Rydym yn cyhoeddi ein datganiad polisi cyffredinol o dan adran 105Y o Ddeddf 2003 ynghylch sut byddwn yn arfer ein swyddogaethau newydd i geisio sicrhau bod darparwyr yn cydymffurfio â'u dyletswyddau diogelwch newydd o dan y fframwaith diogelwch diwygiedig.**

Mae ein datganiad yn egluro'r gweithdrefnau rydym yn disgwyl eu dilyn yn gyffredinol wrth gyflawni ein gweithgareddau monitro a gorfodi. Rydym hefyd yn darparu canllawiau cyffredinol ynghylch pa gyfaddawdau diogelwch y byddem fel arfer yn disgwyl i ddarparwyr adrodd yn ôl i Ofcom a'r broses ar gyfer rhoi gwybod amdanynt.

Un o amcanion allweddol ein rôl monitro dros ychydig flynyddoedd cyntaf y drefn yw penderfynu a yw pob darparwr yn rhoi mesurau priodol ar waith yn ddigon cyflym, wrth iddynt barhau i weithio tuag at gydymffurfio'n llawn. Pan fyddwn yn dod o hyd i feysydd sy'n peri pryder, byddwn yn ceisio gweithio gyda darparwyr i sicrhau bod mesurau priodol a chymesur yn cael eu rhoi ar waith yn unol â'r dyletswyddau diogelwch. Rydym yn disgwyl y bydd y dull cydweithredol hwn yn meithrin ymddygiad sy'n cydymffurfio mwy ac yn lleihau nifer yr achosion o dorri amodau o dan Ddeddf 2003, yn ogystal â lleihau'r angen am ymchwiliadau rheoleiddiol. Byddwn yn barod i ddefnyddio ein cyfres o bwerau gorfodi yn ôl yr angen.

**Ar ben hynny, rydym yn cyhoeddi ein canllawiau wedi'u diweddaru ar y gofynion diogelwch sy'n angenrheidiol oherwydd y newidiadau sy'n deillio o Ddeddf Telathrebu (Diogelwch) 2021.**

Mae'r fframwaith diogelwch newydd yn disodli adrannau 105A-105D o Ddeddf 2003, sy'n gosod dyletswyddau diogelwch newydd ar ddarparwyr rhwydweithiau a gwasanaethau cyfathrebu electronig cyhoeddus, yn Neddf 2003 ei hun ac mewn rheoliadau. Ategir hyn gan godau ymarfer statudol sy'n rhoi canllawiau ar y mesurau sydd i'w cymryd o dan adrannau 105A i 105D.

O ystyried y fframwaith newydd hwn, rydym yn diweddaru'r canllawiau a roddwyd yn 2017 ar ofynion diogelwch, gan gydnabod yn benodol nad oes angen llawer o'r canllawiau hyn mwyach o ystyried y Cod Ymarfer y mae'r Llywodraeth wedi'i gyhoeddi. I bob pwrpas, mae hyn yn golygu ein bod **wedi penderfynu cadw'r canllawiau hyn dim ond i'r graddau eu bod yn ymwneud â'r is-gategori o gyfaddawdau diogelwch sy'n ymwneud â chydnerthedd rhwydweithiau a gwasanaethau, o ran argaeledd, perfformiad neu swyddogaethau.**

Rydym hefyd wedi manteisio ar y cyfle hwn i ddiweddaru'r canllawiau i ystyried y fframwaith diwygiedig, yn ogystal ag adlewyrchu natur newidiol risgiau cysylltiedig â chydnerthedd a phrofiad Ofcom o adrodd am ddigwyddiadau ac ymchwilio iddynt.

1.1 Cyflwynodd Deddf Telathrebu (Diogelwch) 2021 (y '**Ddeddf Diogelwch**')[2] fframwaith diwygiedig ar gyfer gwarchod diogelwch a chydnerthedd rhwydweithiau a gwasanaethau cyfathrebu electronig cyhoeddus yn y DU.

[2] Deddf Telathrebu (Diogelwch) 2021 (legislation.gov.uk)

1.2 Nodwyd y fframwaith blaenorol yn adrannau 105A-105D o Ddeddf 2003 a'i ategu gan ganllawiau Ofcom a gafodd eu diweddaru diwethaf yn 2017('**Canllawiau 2017 Ofcom**').

## Dyletswyddau a chanllawiau diogelwch o dan y fframwaith diwygiedig

1.3 Roedd y fframwaith newydd yn disodli adrannau 105A-105D o Ddeddf 2003 a daeth i rym ar 1 Hydref 2022[3]. Mae'n gosod dyletswyddau diogelwch newydd ar ddarparwyr gwasanaethau a rhwydweithiau cyfathrebu electronig cyhoeddus ('**darparwyr**'), gan gynnwys:

- y dyletswyddau diogelwch cyffredinol a nodir yn Neddf 2003 (adrannau 105A a 105C);
- dyletswyddau i gymryd mesurau penodedig a osodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol drwy reoliadau (adrannau 105B a 105D); a
- dyletswyddau i roi gwybod i Ofcom am gyfaddawdau diogelwch ac i roi gwybod i ddefnyddwyr (adrannau 105J a 105K).

1.4 Mae'r fframwaith diwygiedig hefyd yn darparu ar gyfer dau fath o arweiniad i ddarparwyr:

a) Canllawiau'r Ysgrifennydd Gwladol ar y mesurau sydd i'w cymryd gan ddarparwyr o dan adrannau 105A i 105D. Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol bwerau i roi canllawiau o'r fath drwy gyhoeddi codau ymarfer o dan adran 105E o Ddeddf 2003;

b) Polisi cyffredinol Ofcom ar sut byddwn yn arfer ein swyddogaethau o dan adrannau 105I a 105M i 105V i geisio sicrhau cydymffurfiad â'r dyletswyddau diogelwch. Mae Deddf 2003 (adran 105Y) yn rhoi dyletswydd ar Ofcom i gyhoeddi datganiad sy'n nodi polisi cyffredinol o'r fath ac i roi sylw iddo wrth arfer ein swyddogaethau perthnasol.

## Rôl Ofcom

1.5 Mae gan Ofcom ddyletswydd gyffredinol o dan adran 105M o Ddeddf 2003 i geisio sicrhau bod darparwyr yn cydymffurfio â'u dyletswyddau diogelwch. Mae hyn yn rhoi cylch gwaith clir i Ofcom weithio gyda darparwyr i wella eu diogelwch a monitro eu cydymffurfiad.

1.6 Mae gan Ofcom hefyd rai swyddogaethau adrodd sy'n ymwneud â materion sy'n gysylltiedig â diogelwch. Yn benodol, mae gan Ofcom ddyletswydd i roi gwybod i'r Ysgrifennydd Gwladol am rai risgiau o ran cyfaddawdu diogelwch o dan adran 105L, a rhaid iddo hefyd baratoi ac anfon at yr Ysgrifennydd Gwladol:

- adroddiadau diogelwch o dan adran 105Z; ac
- adroddiadau seilwaith o dan adran 134A[4].

[3] Gweler Rheoliadau Deddf Telathrebu (Diogelwch) 2021 (Cychwyn) 2022.

[4] Gweler, yn benodol, adran 134B(1)(ha) ac adran 134B(2)(fa). Ar ben hynny, gall Ofcom baratoi a chyhoeddi adroddiadau ychwanegol o dan adran 134AA o Ddeddf 2003.

## Ymgynghoriadau'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar y Rheoliadau a'r Cod

1.7 Fel y soniwyd uchod, mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol bwerau i osod mesurau diogelwch penodol ar ddarparwyr drwy wneud rheoliadau a rhoi canllawiau ar y mesurau i'w cymryd drwy gyhoeddi codau ymarfer. Wrth arfer y pwerau hyn, mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi gwneud y canlynol:

- gwneud rheoliadau o dan adrannau 105B a 105D (y 'Rheoliadau')[5];
- cyhoeddi cod ymarfer o dan adran 105E i roi arweiniad i ddarparwyr sydd â throsiant perthnasol yn y cyfnod perthnasol sy'n fwy na £50m neu sydd gymaint â hynny (y 'Cod').

## Canllawiau ar weithdrefnau Ofcom

1.8 Mae'r fframwaith diwygiedig yn rhoi dyletswydd gyffredinol ar Ofcom o dan adran 105M o Ddeddf 2003 i geisio sicrhau bod darparwyr yn cydymffurfio â'u dyletswyddau diogelwch. Er mwyn galluogi Ofcom i gyflawni'r rôl hon, mae Deddf 2003 yn rhoi pwerau i Ofcom fonitro a gorfodi cydymffurfiad y diwydiant â'i ddyletswyddau diogelwch (adrannau 105I a 105N i 105V). Yn benodol, mae'n galluogi Ofcom i wneud y canlynol:

- mynnu bod darparwyr yn darparu gwybodaeth sy'n angenrheidiol ym marn Ofcom i'w alluogi i gyflawni ei swyddogaethau diogelwch (adran 135, fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Diogelwch[6]);
- cyfarwyddo darparwyr i egluro unrhyw fethiant i weithredu yn unol â chanllawiau a roddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn cod ymarfer (adran 105I);
- cynnal, neu gomisiynu eraill i gynnal, asesiad o a yw darparwr yn cydymffurfio â'r dyletswyddau diogelwch (adran 105N);
- rhoi hysbysiadau asesu (adran 105O), gan gynnwys rhoi hysbysiad asesu sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwr gydymffurfio â dyletswydd ar frys (adrannau 105P a 105Q). Gall hysbysiadau asesu gynnwys ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwblhau profion ar system, sicrhau bod staff ar gael i'w cyfweld a chaniatáu i bobl sydd wedi'u hawdurdodi gan Ofcom i fynd i mewn i eiddo gweithredwyr [7] i weld gwybodaeth, offer ac arsylwi profion;
- gorfodi cydymffurfiad â'r dyletswyddau diogelwch (adran 105S), gan gynnwys drwy osod cosbau (adran 105T) a chyfarwyddo darparwr i gymryd camau interim (adrannau 105U a 105V).

1.9 O dan adran 105Y o Ddeddf 2003 mae dyletswydd ar Ofcom i gyhoeddi datganiad o'i bolisi cyffredinol mewn perthynas ag arfer ei swyddogaethau o dan adrannau 105I a 105M i 105V o Ddeddf 2003. Mae Atodiad 1 yn cynnwys canllawiau cyffredinol, a roddwyd wrth

[5] Gweler Rheoliadau Cyfathrebu Electronig (Mesurau Diogelwch) 2022 (S.I. 2022/933)
[6] Gweler, yn benodol, adran 135(3)(iza)-(izc), adran 135(3A)(za) ac adran 135(3C) o Ddeddf 2003.
[7] Mae Deddf 2003 (adran 105R) yn rhoi dyletswydd ar Ofcom i gyhoeddi datganiad yn ein hadroddiad blynyddol sy'n nodi ar sawl
achlysur yr aethpwyd i mewn i eiddo yn unol â dyletswydd a osodwyd mewn hysbysiad asesu.

arfer pwerau Ofcom o dan adrannau 1(3) a 105Y o Ddeddf 2003, sy’n nodi sut rydym yn bwriadu arfer ein pwerau newydd.

1.10 Yn benodol, mae ein datganiad polisi cyffredinol o dan adran 105Y o Ddeddf 2003 yn egluro’r gweithdrefnau rydym fel arfer yn disgwyl eu dilyn wrth gyflawni ein gwaith monitro a gorfodi. Ynddo hefyd darperir canllawiau cyffredinol ar ba gyfaddawdau diogelwch y byddem fel arfer yn disgwyl i ddarparwyr adrodd yn ôl i Ofcom a’r broses ar gyfer rhoi gwybod amdanynt. Bwriad y canllawiau hyn ar ddyletswyddau darparwyr i roi gwybod am gyfaddawdau diogelwch yw disodli’r canllawiau ar roi gwybod am ddigwyddiadau a oedd wedi’u nodi yng Nghanllawiau 2017 Ofcom. Yn ogystal â’r uchod, mae ein datganiad cyffredinol yn rhoi arweiniad ynghylch dull Ofcom o rannu gwybodaeth â chyrff cyhoeddus eraill, gan gynnwys yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol a’r Comisiynydd Gwybodaeth.

## Canllawiau Ofcom ar Gydnerthedd

1.11 Mae’r Ddeddf Diogelwch yn cyflwyno’r diffiniad o ‘gyfaddawd diogelwch’. Mae’r canllawiau a nodir yn Atodiad 2, sy’n cael eu rhoi wrth arfer pwerau Ofcom o dan adrannau 1(3) a 105Y, yn berthnasol i’r is-gategori o gyfaddawdau diogelwch sy’n ymwneud â chydnerthedd rhwydweithiau a gwasanaethau, o ran argaeledd, perfformiad neu swyddogaethau (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel ‘Digwyddiadau Cydnerthedd’).

1.12 O gofio'r fframwaith newydd hwn sydd wedi’i ddisgrifio uchod, rydym yn diweddaru'r canllawiau a roddwyd yn 2017; yn benodol rydym yn cydnabod nad oes angen llawer o’r canllawiau hyn mwyach o ystyried Cod Ymarfer newydd y Llywodraeth. Mae ein canllawiau newydd wedi’u nodi yn Atodiad 2. Bwriad y canllawiau hyn yw diweddaru’r canllawiau ar gydnerthedd a oedd wedi’u nodi yng Nghanllawiau 2017.

1.13 Mae Canllawiau 2017 Ofcom, i’r graddau eu bod yn ymwneud â chyfaddawdau diogelwch ar wahân i Ddigwyddiadau Cydnerthedd, wedi cael eu disodli gan y Cod.

1.14 Mae canllawiau Ofcom ar adrodd ar gyfaddawdau diogelwch (gan gynnwys Digwyddiadau Cydnerthedd) sydd wedi’u cynnwys yn natganiad polisi cyffredinol Ofcom (sydd wedi’i nodi yn Atodiad 1) yn disodli Canllawiau Ofcom 2017 ar roi gwybod am ddigwyddiadau.

1.15 Mae’r canllawiau sydd wedi’u diweddaru nawr yn disgrifio sut rydym yn bwriadu defnyddio ein pwerau ac yn nodi’r ffynonellau canllawiau y byddwn ni’n eu hystyried wrth gyflawni ein swyddogaethau mewn perthynas â chydnerthedd. Mae hefyd yn darparu rhai arsylwadau cyffredinol a senarios o ddigwyddiadau penodol a fydd yn sail i’n dull o ymdrin â chydnerthedd. I gydnabod hyn, rydym wedi ail-lunio’r canllawiau cyffredinol fel canllawiau ar ofynion cydnerthedd a osodwyd gan neu o dan adrannau 105A i D o Ddeddf 2003. Pan fydd y Llywodraeth yn gwneud penderfyniadau yn sgil Adolygiad Llywodraeth y DU o’r Strategaeth Cydnerthedd Cenedlaethol, byddai Ofcom yn disgwyl eu hadolygu a’u diweddaru neu eu diddymu fel y bo’n briodol.